OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 70 (Cy.6)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff (Diwygio) (Cymru) 2004

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *14 Ionawr2004* |
| *Yn dod i rym* | - - | *31 Ionawr 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 29(10) a 64(1) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff (Diwygio) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 31 Ionawr 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

### Diwygio Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff 1994

**2.** Mae Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff 1994(**3**) yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

### Diwygio rheoliad 10: cofrestrau cyhoeddus

**3.** Yn rheoliad 10 (manylion i'w cynnwys mewn cofrestrau cyhoeddus), ar ddiwedd paragraff (1)(g) rhodder:

"(iv) the scores which result from any risk appraisal relating to a site which is subject to a waste management licence;".

### Diwygio rheoliad 12: offer symudol

**4.**—(1) Yn rheoliad 12 (offer symudol) —

(a) ym mharagraff (1) —

(**1**) 1990 p.43. Diffinnir "prescribed", at ddibenion adran 64(1), yn adran 64(8).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, mewn perthynas â Chymru, yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.

(**3**) O.S. 1994/1056; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1995/288 ac O.S. 1996/634.

(i) rhodder, yn lle is-baragraff (d), —

"(d) plant for the treatment of clinical waste;";

(ii) ar ôl is-baragraff (e), rhodder —

"(f) plant for the dewatering of muds, sludges, soils and dredgings;

(g) plant for the treatment by lime stabilisation of sludge;

(h) plant for the treatment of contaminated material, substances or products, for the purpose of remedial action with respect to land or controlled waters;"; a

(b) rhodder, ar ôl paragraff (2) —

"(3) For the purposes of paragraph (1)(h), "controlled waters" has the meaning given by section 104 of the Water Resources Act 1991(**4**).".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

*D. Elis-Thomas*

14 Ionawr 2004

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1991 p.57; addaswyd adran 104(1) gan O.S. 1996/3001, O.S.1997/1331 ac O.S. 1997/1332.

(**5**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau Trwyddedu Diwygio Gwastraff 1994 ("Rheoliadau 1994") mewn perthynas â Chymru.

Mae rheoliad 10 o Reoliadau 1994 yn rhagnodi'r manylion y mae'n rhaid i bob awdurdod rheoli gwastraff eu rhoi ar y gofrestr gyhoeddus y mae'n ei chadw o dan adran 64(1) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu categori pellach i'r manylion hynny, sef y sgoriau a ddaw allan o unrhyw werthusiad risg ar gyfer safle y mae trwydded rheoli gwastraff yn perthyn iddo.

Mae rheoliad 12 o Reoliadau 1994 yn rhagnodi mathau o offer sydd i'w trin fel offer symudol at ddibenion Rhan II o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r disgrifiad o'r math o offer a ragnodir yn rheoliad 12(1)(d) o Reoliadau 1994 ac yn ychwanegu'r mathau canlynol:

(a) offer ar gyfer tynnu dŵ r o fwd, llaid, priddoedd a charthion;

(b) offer ar gyfer trin llaid drwy ei sefydlogi â chalch; a

(c) offer ar gyfer trin deunydd, sylweddau neu gynnyrch halogedig at ddibenion gwaith adferol mewn perthynas â thir neu ddyfroedd rheoledig.